Cwestiynau Cyffredin

Y prosiect i newid y ceblau tanddaear o Ddinorwig i Bentir

Mae angen i ni newid y ceblau sy'n rhedeg o dan y ddaear rhwng Gorsaf Bŵer Dinorwig a'n his-orsaf ym Mhentir.

Bwriad y gwaith yw sicrhau bod cyflenwadau trydan yr ardal leol a'r tu hwnt yn dal yn gadarn ac yn ddibynadwy.

Mae'r prosiect i newid y ceblau yn gynllun peirianyddol cymhleth. Mae'r ddogfen hon yn ateb y cwestiynau a ofynnir i ni amlaf.

Beth mae National Grid yn ei wneud?

National Grid sy'n berchen ar y rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr. Ni sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod trydan yn cael ei drawsyrru'n ddiogel ac yn effeithlon o'r mannau lle caiff ei gynhyrchu i'r mannau lle mae ei angen.

Pam rydych chi'n newid y ceblau tanddaear?

Mae angen i National Grid newid y ceblau sy'n rhedeg o dan y ddaear rhwng Gorsaf Bŵer Dinorwig a'n his-orsaf ym Mhentir. Gosodwyd y ceblau gwreiddiol ddiwedd yr 1970au ac maent yn cael eu defnyddio byth er hynny. Erbyn hyn, maent yn cyrraedd diwedd eu hoes weithredol ac mae angen eu newid er mwyn sicrhau bod y cyflenwadau trydan i'r ardal leol a'r tu hwnt yn dal yn gadarn.

Pam mae Gorsaf Bŵer Dinorwig mor bwysig?

Y First Hydro Company sy'n rhedeg ac yn cynnal Gorsaf Bŵer Dinorwig, a elwir weithiau yn 'Mynydd Gwefru'. Mae'r orsaf yn rhan hanfodol o rwydwaith trydan Cymru a Lloegr. Mae'n cynhyrchu pŵer ychwanegol yn gyflym pan fydd y galw am drydan ar ei uchaf, gan ein helpu i ddarparu cyflenwad dibynadwy i gartrefi a busnesau Prydain. Mae'n cymryd llai nag 16 eiliad i Orsaf Bŵer Dinorwig gynhyrchu hyd yr eithaf.

Ble mae'r ceblau newydd yn mynd?

Mae ein gwaith yn digwydd rhwng Gorsaf Bŵer Dinorwig a'n his-orsaf ym Mhentir. Rydym yn gosod tair cylched newydd i gyd. Byddwn yn gosod ceblau ar hyd yr A4244 a'r A4086, ac o dan Reilffordd Llyn Padarn. Ewch i wefan y prosiect i weld map o'r cynllun. Mae cyfeiriad y wefan ar ddiwedd y daflen hon.

A fydd y ceblau newydd yn dilyn yr un llwybrau â'r ceblau presennol?

Na fyddant, mae angen llwybr gwahanol ar gyfer y ceblau newydd. Y rheswm dros hyn yw bod y cysylltiad presennol yn chwarae rhan mor bwysig fel na ellir ei ddatgysylltu o'r rhwydwaith tra byddwn yn gosod y ceblau newydd. Mae angen sicrhau bod Gorsaf Bŵer Dinorwig yn dal i weithio trwy gydol y cynllun i newid y ceblau a does dim digon o le ar lwybrau'r ceblau presennol i osod cylchedau newydd tra byddwn yn dal i ddefnyddio'r hen rai.

Sut wnaethoch chi benderfynu lle i roi'r ceblau?

Cyn dechrau ar y gwaith, fe wnaethom ni gynnal adolygiad manwl o lawer o wahanol ffactorau wrth benderfynu ble i roi'r ceblau newydd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried yr amgylchedd, peirianneg, diogelwch, perchnogion tir ac eiddo, y gymuned ac archaeoleg.

Gwelsom mai gosod y ceblau newydd yn yr A4086, yr A4244 ac o dan Reilffordd Llyn Padarn fyddai'n effeithio leiaf ar yr amgylchedd ac ar bobl yr ardal a'u heiddo. Rydym hefyd yn defnyddio techneg o'r enw Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) i osod ein ceblau o dan fannau sensitif, gan leihau effeithiau ein gwaith ymhellach.

nationalgrid

Beth yw Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD)?

Bydd angen i'n ceblau groesi nifer o rwystrau yr ydym yn awyddus i beidio â tharfu arnynt na'u cau, fel afonydd. Byddwn yn defnyddio techneg ddrilio o'r enw Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) i osod ein ceblau o dan y rhwystrau hyn. Mae hyn yn cynnwys drilio twll turio bychan o dan rwystr a thynnu'r cebl newydd trwyddo. Mae'n broses fanwl ac rydym wedi'i defnyddio'n llwyddiannus ar lawer o brosiectau eraill ledled Prydain.

Pa ganiatâd y bydd arnoch ei angen i wneud y gwaith?

Rydym yn gwneud llawer o'n gwaith o dan yr hawliau datblygu a ganiateir sydd gan National Grid ar gyfer seilwaith cenedlaethol hanfodol. Rydym yn cydweithio'n agos â Chyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff pwysig eraill, ynghyd â pherchnogion tir, i sicrhau trwyddedau a mathau eraill penodol o ganiatâd y mae arnom eu hangen i wneud ein gwaith.

A fydd eich gwaith yn swnllyd?

Bydd peth o'r gwaith angenrheidiol yn gwneud sŵn ond, lle bo'n bosibl, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod cyn lleied o sŵn ag y bo modd.

A fydd angen cau ffyrdd?

Rydym yn sylweddoli bod cau ffyrdd yn tarfu ar bobl, felly rydym yn ceisio peidio â gwneud hynny os gallwn beidio. Caewyd yr A4086 yn Llanberis rhwng Ionawr a Mawrth 2022. Bydd angen cau pen uchaf y Stryd Fawr yn Llanberis, am tua phythefnos. Oherwydd anawsterau â chyflwr y ddaear, bu'n rhaid gohirio hyn ac rydym yn rhagweld erbyn hyn mai yn gynnar yn 2023 y bydd yn digwydd. Caiff y traffig a cherddwyr eu cyfeirio ar hyd ffyrdd eraill a nodir yn glir pa ffordd i fynd. Byddwn yn cysylltu â phobl yr ardal i ddweud pryd y bwriadwn gau'r gyffordd.

Sut fyddwch chi'n cadw'r ffyrdd yn agored?

Rydym yn gosod ein ceblau newydd ar un ochr o'r ffordd gerbydau ar hyd llawer o'r A4086 a'r A4244. Mae hyn yn golygu y gallwn gadw un lôn yn agored a defnyddio goleuadau traffig dros dro i gadw'r traffig i symud. Byddwn yn defnyddio system reoli traffig ddwy-ffordd ac yn cadw golwg ar lif y traffig trwy'r amser y byddwn yn gweithio. Byddwn yn addasu'r amseriadau pan fydd y traffig ar ei brysuraf ac adeg digwyddiadau lleol.

Sut rydych chi'n lleihau'r effeithiau ar amgylchedd sensitif yr ardal?

Wrth ddatblygu ein cynlluniau, rydym wedi ceisio osgoi effeithio ar ardaloedd sensitif. Dyma un o'r prif resymau pam rydym yn gosod ein ceblau mewn ffyrdd, yn hytrach nag ar draws cefn gwlad.

Yn ogystal, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid lleol pwysig, yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw i sicrhau ein bod yn lliniaru effeithiau ein gwaith hyd y bo modd ac yn osgoi safleoedd pwysig. Rydym wedi cynnal arolygon manwl i asesu materion amgylcheddol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effaith ein gwaith lle bo'n bosibl.

Sut bydd eich prosiect yn effeithio ar dwristiaeth yn yr ardal?

Rydym yn sylweddoli bod twristiaeth yn gonglfaen i'r economi ac i fywydau llawer o bobl yng ngogledd Cymru. Ni fyddwn yn gweithio ar y ffyrdd yn ystod cyfnodau embargo Cyngor Gwynedd dros gyfnodau brig y gwyliau.

A fydd y prosiect yn effeithio ar gartrefi pobl a'u tir?

Er ein bod wedi datblygu'r cynllun mewn ffordd sy'n effeithio cyn lleied ag y bo modd ar bobl yr ardal, bydd angen i ni fynd ar y tir mewn rhai mannau. Rydym wedi bod yn trafod y prosiect gyda pherchnogion tir ers sawl blwyddyn, er mwyn cytuno ar y gwaith y byddwn yn ei wneud. Nid ydym yn disgwyl i'r gwaith amharu ar y gwasanaethau i eiddo pobl.

A fydd cyfle am waith?

Mae ein contractwyr, yn cynnwys Morgan Sindall, yn defnyddio asiantaeth o'r enw VGC pan fydd angen recriwtio gweithwyr. Gall pobl gofrestru gyda nhw a chael gwybod am swyddi gwag ar lein yn www.vgcgroup.co.uk. Mae gwybodaeth am gyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd gyda ni ar wefan National Grid.

Ym mha ffyrdd eraill y gall pobl yr ardal elwa ar y prosiect?

Mae National Grid yn cynnig Rhaglen Grantiau Cymunedol sy'n helpu i ariannu prosiectau mewn cymunedau y mae ein gwaith yn effeithio arnynt. Cewch wybod rhagor am y cynllun, y meini prawf a sut i ymgeisio ar ein gwefan: nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme

Cysylltu â ni

Ffoniwch ein rhif rhadffôn: **0330 1340066**

Anfonwch neges ebost i: **nationalgrid@dinorwig.co.uk**

nationalgrid.com/uk/electricity-transmission/network-and-infrastructure/dinorwig-pentir

Ailgylchwch os gwelwch yn dda